



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref FM -/0880/23

Elin Jones MS/AS
Llywydd
Senedd Cymru

llywydd@senedd.cymru

22 Mawrth 2023

Annwyl Elin

Byddwch yn ymwybodol bod y Senedd wedi pasio'r Bil Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) ar 6 Rhagfyr 2022. Er mwyn tryloywder, hoffwn ddisgrifio bwriadau'r Llywodraeth o ran Cysyniad Brenhinol a dod â'r Ddeddf i rym.

Rhoddodd y Gweinidog Newid Hinsawdd dystiolaeth i dri phwyllgor. Copïaf y llythyr hwn at Gadeiryddion y pwyllgorau hynny.

Mae'r Bil yn ennyn Cytundeb Rhwystrau Technegol i Fasnachu Sefydliad Masnach y Byd (WTO), sy'n cynnwys mesur cyfreithiol i roi cyfnod rhesymol (chwe mis fel rheol) rhwng pasio a chyhoeddi deddfwriaeth sy'n effeithio ar fasnach a dod â hi i rym. Mae'r gofyniad er mwyn caniatáu i fusnesau yn aelod-wledydd y WTO addasu eu cynhyrchion i fodloni gofynion y gofyniadau newydd. Mae'r Bil yn cynnwys nifer o ddarpariaethau sylweddol a fydd yn cychwyn y diwrnod ar ôl Cysyniad Brenhinol. O ganlyniad, ni fwriadaf osod y Sêl Gymreig ar y Breinlythyrau nes bod y cyfnod chwe mis i hysbysu'r WTO wedi dod i ben yn gynnar ym mis Mehefin.

Dyma'r tro cyntaf ers i'r Deyrnas Unedig adael yr Undeb Ewropeaidd i'r Senedd basio Bil sy'n ennyn y broses WTO hon. Yn ddatblygiad o ymarfer da, yn y dyfodol sicrhaf y cewch eich hysbysu mewn ysgrifen am unrhyw ddeddfwriaeth arall y disgwyliwn i ennyn y weithdrefn WTO hon.

Rwy'n hapus i drafod yr ymagwedd hon yn bellach gyda chi pan gwrddwn heddiw. Rwy'n copïo'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd, Amgylchedd ac Seilwaith;

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, a Chadeirydd y Pwyllgor
Cyllid.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink that reads "Mark Drakeford". The signature is written in a cursive, slightly slanted style.

MARK DRAKEFORD